Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canllaw i rieni a gofalwyr plant ag anghenion dysgu ychwanegol

ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Tachwedd 2025

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Pecyn cymorth i rieni a gofalwyr plant ag anghenion dysgu ychwanegol**.



Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

**Gwefan:** www.llyw.cymru/anghenion-dysgu-ychwanegol-pecyn-cymorth-rhieni-gofalwyr

**Ebost:** YGangenAnghenionDysguYchwanegol@llyw.cymru

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 4035272477

# Cynnwys


Am y canllaw yma .................................................. 4

Y system ADY .................................................. 5

Am ADY .................................................. 7

Cynllun Datblygu Unigol .................................................. 14

Gwneud penderfyniad am ADY .................................................. 16

Anghytuno â phenderfyniad .................................................. 22

Cynllunio ar gyfer newidiadau a phontio .................................................. 33

Pobl sydd ar gael i gefnogi .................................................. 37

Ffeithiau pwysig mae angen i chi eu gwybod .................................................. 46

Ble i fynd am help .................................................. 48

Termau a geiriau defnyddiol .................................................. 53

# Am y canllaw yma



Yng Nghymru, mae yna system i helpu plant a phobl ifanc sydd angen cymorth ychwanegol i ddysgu.



Mae hyn yn cael ei alw yn **system anghenion dysgu ychwanegol**. Rydyn ni’n ei alw’n **system ADY** yn fyr.




Dyma ganllaw hawdd ei ddeall i rieni a gofalwyr plentyn yng Nghymru sydd ag ADY.



**Mae’r canllaw yma yn dweud:**

- Sut mae’r system ADY yng Nghymru yn gweithio.
- Pa gymorth rydych chi’n gallu  ei gael os oes gan eich plentyn ADY.

# Y system ADY



Mae’r system ADY yng Nghymru yn helpu plant a phobl ifanc sydd angen cymorth ychwanegol i ddysgu.



Mae’n gwneud yn siŵr eu bod yn cael yr help cywir fel eu bod nhw’n gallu gwneud eu gorau.

**Mae’r system ADY yn meddwl:**



1. Mae pob plentyn a pherson ifanc rhwng 0 a 25 oed yn cael y gefnogaeth maen nhw ei angen i wneud yn dda; er gwaethaf yr heriau maen nhw’n gallu eu hwynebu.



2. Gwneud yn siŵr bod plant, pobl ifanc a theuluoedd yn cael eu clywed ac yn gallu cymryd rhan.



3. Mae plant a phobl ifanc yn cael y cymorth maen nhw ei angen cyn iddyn nhw ddechrau yn y feithrinfa, ysgol neu goleg.



4. Mae plant a phobl ifanc yn gallu mynd i’r **ysgolion prif ffrwd** yn agos atyn nhw. Mae **ysgolion prif ffrwd** yn darparu addysg i blant a phobl ifanc o bob gallu.



5. Mae gwasanaethau yn gweithio gyda’i gilydd i roi’r gefnogaeth gywir.



6. Mae ffyrdd gall blant, pobl ifanc a theuluoedd siarad os nad ydyn nhw’n hapus.




7. Mae addysg yn Gymraeg yn cael ei ddarparu os oes angen.

# Am ADY

**Mae gan blentyn neu berson ifanc ADY os:**



- Mae ganddyn nhw anhawster dysgu. Mae hyn yn meddwl eu bod yn ei chael hi'n llawer mwy annodd i ddysgu na'r rhan fwyaf o bobl eraill eu hoedran.

**Neu**



- Mae ganddyn nhw anabledd sy'n eu stopio, neu'n ei gwneud hi'n fwy anodd iddyn nhw, fynd i'r ysgol neu'r coleg.

**Mae'n bwysig gwybod:**




Nid oes gan blentyn neu berson ifanc anhawster dysgu neu anabledd oherwydd bod yr iaith maen nhw'n ei siarad gartref yn wahanol i'r iaith sydd yn cael ei defnyddio yn yr ysgol.

# Cefnogi dysgwyr



Mae pob plentyn a pherson ifanc yn wahanol.



Weithiau mae llawer yn cael dysgu yn anodd ac maen nhw angen cymorth ychwanegol.



Mae rhai angen dim ond ychydig o gefnogaeth ychwanegol i wneud cystal ag maen nhw'n gallu.




Dydy hyn **ddim bob amser yn meddwl** bod ganddyn nhw ADY.



Ond, os ydy eu cynnydd yn llawer mwy araf nag eraill, hyd yn oed gydag addysgu a chefnogaeth wahanol, efallai y bydd ganddyn nhw ADY.



Os ydych chi'n meddwl efallai bod gan eich plentyn ADY, mae'n bwysig siarad â rhywun yn gyntaf.



Mae plant a phobl ifanc hefyd yn gallu siarad â rhywun eu hunain.



Rydych chi'n gallu siarad gyda'u:

- Meithrinfa
- Ysgol
- Coleg
- Neu le arall lle maen nhw'n dysgu neu'n cael eu cefnogi.



**Does dim angen** diagnosis meddygol gan feddyg ar eich plentyn  i gael ADY.



**Does dim angen** i'ch plentyn gael ei atgyfeirio gan weithiwr proffesiynol.



Beth sydd fwyaf pwysig ydy dod o hyd i'r gefnogaeth gywir i'ch plentyn.

# Plant mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar



Dydy plant dan 5 oed ddim yn yr ysgol llawn amser eto. Mae hyn weithiau yn cael ei alw'n flynyddoedd cynnar.



**I weld os oes gan blentyn ifanc ADY, mae oedolion yn edrych i weld:**

- pa mor anodd ydy dysgu iddyn nhw
- a meddwl am unrhyw anabledd sydd yn gallu gwneud dysgu yn fwy anodd.



Mae hyn yn gallu bod gan rhywun o lle mae'r plentyn yn dysgu neu'n derbyn gofal, fel:


- Meithrinfa
- Dechrau'n Deg
- Grŵp Chwarae
- Gwarchodwr plant.

**Mae gan blentyn dan 5 oed ADY os:**



- Maen nhw'n debygol o gael dysgu yn llawer mwy anodd nag eraill pan fyddan nhw'n dechrau'r ysgol, **os nad oes cefnogaeth yn cael ei roi iddyn nhw.**

**Neu**



- Mae ganddyn nhw anabledd fydd yn eu stopio neu'n ei gwneud hi'n fwy anodd iddyn nhw fynd i'r ysgol, os nad ydyn nhw'n cael cymorth.

# Cymorth i blant a phobl ifanc ag ADY



Os oes gan eich plentyn ADY, fe fyddan nhw'n cael cymorth ychwanegol. Mae'n wahanol neu'n ychwanegol i'r gefnogaeth mae plant a phobl ifanc fel arfer yn ei gael.




Mae'r gefnogaeth yma yn cael ei galw  yn **darpariaeth ddysgu ychwanegol**. Rydyn ni'n galw hyn yn **DDdY** yn fyr.

# Cynllun Datblygu Unigol




Mae gan blant a phobl ifanc ag ADY yr hawl i **gynllun datblygu unigol**. Rydyn ni'n galw hwn yn CDU yn fyr.



Mae CDU yn gynllun sy'n disgrifio pa gefnogaeth maen nhw ei angen i allu dysgu.




Mae'r CDU yn ddogfen gyfreithiol. **Rhaid** darparu'r cymorth sydd yn cael ei ddisgrifio yn CDU eich plentyn.




Fe ddylai'r CDU gael ei wneud **gyda** chi a'ch plentyn.




Mae'r ysgol neu'r coleg fel arfer yn gofalu am y CDU. Weithiau, fe fydd y cyngor lleol yn gwneud hynny.



Rydych chi a'ch plentyn yn gallu cwestiynu beth sydd yn eich CDU os nad ydych chi'n cytuno.




Fe fydd y CDU yn cael ei edrych arno:

- Bob 12 mis, neu'n gynt os oes angen.
- Pan fydd rhywun yn gofyn iddo gael ei edrych arno.
- Pan fydd unrhyw beth pwysig yn newid i'r plentyn neu'r person ifanc.

# Gwneud penderfyniad am ADY



Pan fydd meithrinfa, ysgol neu goleg eich plentyn yn ymwybodol **efallai** bod gan eich plentyn ADY, **rhaid** iddyn nhw edrych i mewn iddo.

**Maen nhw'n gallu dod yn ymwybodol mewn gwahanol ffyrdd:**



- Efallai y byddwch chi, eich plentyn, neu aelod o'r teulu yn dweud rhywbeth.



- Efallai y bydd aelod o staff neu rywun arall sy'n gweithio ac yn cefnogi'ch plentyn yn dweud rhywbeth.

**Rhaid** i'r feithrinfa, yr ysgol neu'r coleg  edrych i mewn iddo, **oni bai**:




- Mae gan eich plentyn CDU yn barod.



- Mae'r feithrinfa, yr ysgol neu'r coleg wedi edrych i mewn iddo yn barod, a does dim unrhyw beth wedi newid.



- Mae'n berson ifanc rhwng 16 a 25 oed sydd ddim yn  cytuno iddo.




- Mae gan eich plentyn 2 ysgol neu goleg. Yn yr achos yma y cyngor lleol sy'n gyfrifol.



- Mae eich plentyn yn byw yn Lloegr ac mae ganddo'r fersiwn Saesneg o CDU sy'n cael ei reoli gan y cyngor lleol yn Lloegr.



Weithiau fe fydd meithrinfa, ysgol neu goleg yn gofyn i'r cyngor lleol eu helpu gyda'r penderfyniad am ADY.



Mae hyn yn gallu digwydd oherwydd nad ydyn nhw'n gallu darparu'r gefnogaeth gywir neu fod angen mwy o gyngor arnynt.



Yn yr achos yma fe fyddan nhw'n gofyn i'r cyngor lleol wneud y penderfyniad.




**Mae gennych chi, eich plentyn a'ch pobl ifanc yr hawl i:**

- Ofyn i'r cyngor lleol edrych ar benderfyniadau'r ysgol.
- Ofyn i'r CDU gael ei wirio.
- Ofyn i'r cyngor lleol gymryd drosodd y CDU.

# Pa mor hir mae'n ei gymryd i wneud penderfyniad am ADY?

## Ysgolion




Mae gan ysgolion **35 diwrnod ysgol** i wneud penderfyniad a gwneud CDU.



Mae hyn yn dechrau pan fydd ysgol yn dod yn ymwybodol y **gallai** fod gan eich plentyn ADY.

## Colegau




Mae gan goleg **35 diwrnod ysgol** i wneud y penderfyniad a gwneud CDU.



Mae hyn yn dechrau o pan fydd y person ifanc yn cytuno i benderfyniad gael ei wneud.

## Cynghorau lleol




Mae gan gynghorau lleol **12 wythnos** i wneud penderfyniad a gwneud CDU.




Rydych chi neu'ch plentyn yn gallu gofyn i gyngor lleol edrych ar rai penderfyniadau os ydych chi'n anhapus. Er enghraifft, os ydych chi'n anhapus gyda:

- Penderfyniad ysgol os oes gan eich plentyn ADY ai peidio.
- CDU ysgol ac rydych chi eisiau ei newid.
- Penderfyniad ysgol i ddod â CDU i ben.




Mae gan gynghorau lleol **7 wythnos** i edrych ar, ac ymateb i benderfyniad ysgol.



Weithiau fe fydd yr amseroedd yn newid os oes rheswm da. Er enghraifft, mae'r plentyn yn sâl neu'n ffwrdd yn ystod gwyliau'r ysgol.

# Anghytuno â phenderfyniad



Weithiau efallai na fyddwch chi'n cytuno â phenderfyniadau sydd yn cael eu gwneud gan:

- Meithrinfa
- Ysgol
- Coleg
- Cyngor lleol.



Ceisiwch siarad â nhw yn gyntaf i ddatrys unrhyw broblemau.



Fe ddylech chi a'ch plentyn allu siarad â nhw am y problemau a dod o hyd i ateb.



Mae’n rhaid i bob cyngor lleol yng Nghymru gael ffyrdd o ddatrys anghytundebau yn gyflym.



Mae’r rhain yn cael eu galw’n **Wasanaethau Datrys Anghytudebau** neu Anghydfodau. Rydyn ni’n galw hyn yn **GDA** yn fyr.

**Bydd y gwasanaethau yma yn:**



- Dweud wrthych chi lle rydych chi’n gallu cael mwy o wybodaeth.



- Darparu cyngor gan arbenigwyr sydd ddim yn gweithio i’r cyngor lleol.



- Esbonio sut i gael **eiriolwr** i'ch helpu chi neu'ch plentyn i ddatrys problemau a gwneud **apeliadau** i **Dribiwnlys Addysg Cymru.**



Mae **eiriolwr** yn berson sy'n eich helpu trwy siarad drosoch chi a'ch hawliau, anghenion a dymuniadau. Maen nhw'n gallu cael eu trefnu trwy wasanaethau **eiriolaeth**.



Mae **apêl** yn ffordd ffurfiol o ofyn am edrych ar benderfyniad.

# Eiriolaeth



Mae gwasanaethau **eiriolaeth** yn gallu rhoi **eiriolwr** i chi  i'ch helpu.



Rhaid i gynghorau lleol wneud yn siŵr eich bod chi a'ch plentyn yn gwybod am **eiriolwyr**.




Mae gwasanaethau **eiriolaeth** yn rhad ac am ddim.

Mae'r **eiriolwr** yn gallu helpu i wneud pethau fel:



- Siarad drosoch chi wrth ddefnyddio gwasanaethau datrys anghydfodau.



- Meddwl am yr **apêl** i Dribiwnlys Addysg Cymru a'ch cynghori beth sy'n gallu cael ei wneud.



- Ysgrifennu llythyrau.



- Mynd i **apêl** i siarad drosoch chi a'ch plentyn.



Weithiau efallai na fyddwch chi, eich plentyn neu berson ifanc yn gallu deall eu CDU neu wneud penderfyniadau.



Efallai y byddwch chi angen help ychwanegol i ddeall eich hawliau plant.



Mae eich plentyn neu berson ifanc yn gallu cael rhywun i gefnogi gyda hyn. Mae'r person yma yn cael ei alw yn **ffrind achos**.

## Gyda phwy i siarad os ydych chi eisiau cyngor ychwanegol



Efallai eich bod chi hefyd eisiau siarad â rhywun a chael cyngor. Mae yna bobl eraill sy'n gallu helpu.




Fe fydd gan y cyngor lleol restr lawn o lle rydych chi'n gallu dod o hyd i wybodaeth arall.



Rydych chi hefyd yn gallu cysylltu â'r sefydliadau yma sydd yn gallu rhoi cyngor am bryderon:

- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Comisiynydd Plant Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg
- Y Llys Gweinyddol – lle mae barnwr yn edrych ar benderfyniad yn y llys.

## Cwynion a phryderon yng Ngwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru



Os ydych chi'n anhapus â gofal a thriniaeth eich plentyn gan y GIG:



- Ceisiwch siarad â'r staff dan sylw yn gyntaf. Fe fyddan nhw'n ceisio datrys unrhyw broblemau.



- Os nad ydy hyn yn helpu, cysylltwch â thîm cwynion eich bwrdd iechyd.



- Neu rydych chi'n gallu defnyddio system gwynion y GIG: Gwrando ar Bobl.

## Apêl



Gallwch chi, eich plentyn a phobl ifanc **apelio** pan nad ydych chi'n cytuno â phenderfyniadau am ADY neu'r CDU.



Mae **apêl** yn ffordd ffurfiol o ofyn am edrych ar benderfyniad.



Rydych chi'n gallu gwneud **apêl** i **Dribiwnlys Addysg Cymru**. Weithiau mae hyn yn cael ei alw yn **TAC** yn fyr.

Gallwch **apelio** i'r TAC os:



- Rydych chi'n anghytuno â'r penderfyniad os oes gan eich plentyn ADY.



- Rydych chi'n anghytuno â beth sydd yn y CDU .

- Dydych ch ddim yn cytuno â'r ysgol neu'r coleg sydd yn cael ei enwi yn y CDU.




- Mae'r CDU  yn dweud y dylid rhoi cymorth yn Gymraeg a dydy hyn ddim yn cael ei ddarparu.



- Mae'r cyngor lleol yn dweud na i newid y CDU neu gymryd drosodd y CDU.

- Mae'r cyngor lleol yn penderfynu stopio'r CDU.



- Mae'r cyngor lleol yn gwrthod edrych i mewn i rywbeth oherwydd eu bod nhw'n dweud nad oes unrhyw beth wedi newid.



Dydy hi ddim yn bosib gwneud **apeliadau** am benderfyniadau sydd yn cael eu gwneud gan ysgolion yn uniongyrchol. Ond rydych chi'n gallu gofyn i'r cyngor lleol edrych ar eu penderfyniadau.



Mae'n rhaid i bawb gyd-fynd â'r penderfyniad y mae'r TAC wedi ei wneud.




Rydych chi'n gallu **apelio** yn erbyn y penderfyniad mae'r TAC wedi ei wneud, ond mae'n rhaid i hyn fod am sut maen nhw wedi defnyddio'r gyfraith.



Os oes angen, mae hyn yn gallu mynd i'r uwch dribiwnlys. Mae hwn yn llys sy'n gallu edrych ar y penderfyniad mae'r TAC wedi'i wneud.

# Cynllunio ar gyfer newidiadau a phontio



Mae pob plentyn a pherson ifanc yn profi newidiadau mewn addysg.



Er enghraifft, newid dosbarth neu ddechrau ysgol neu goleg newydd. Mae hyn weithiau yn cael ei alw yn **pontio**.



Mae **pontio** yn meddwl symud o un lle neu ddosbarth i’r llall.



Efallai y bydd plant a phobl ifanc ag ADY yn cael **pontio** yn fwy anodd ac yn poeni am newidiadau. Efallai y byddan nhw angen help ychwanegol ar yr adegau yma.

Mae cynllunio ymlaen llaw yn gallu gwneud pethau'n haws. Rydych chi'n gallu eu helpu trwy wneud pethau fel:



- Helpu nhw i siarad am eu pryderon a gofyn cwestiynau.



- Esbonio newidiadau mewn ffordd maen nhw'n gallu ei ddeall.



- Rhoi pethau iddyn nhw sydd yn gallu helpu. Fel mapiau ysgol, amserlenni neu eitemau cysur.



- Meddwl am ddefnyddio eitemau synhwyraidd. Fel plygiau clust neu sbectol haul.

- Mynd i'r ysgol a chyfarfod â staff gyda'ch gilydd.



- Gwneud llyfr lluniau neu ganllaw mae eich plentyn yn gallu ei ddefny.

## Gweithio gyda'n gilydd i gefnogi'ch plentyn



Mae cynllunio ar gyfer newidiadau yn gweithio orau pan fydd pawb sy'n cymryd rhan yn gweithio gyda'i gilydd.



Mae hyn yn meddwl chi, eich plentyn, yr ysgol neu'r coleg ac unrhyw sefydliadau eraill. Er enghraifft, Gyrfa Cymru a Pathfinders Cymru.

**Rydych chi'n gallu:**



- Rhannu unrhyw bryderon am eich plentyn gyda'r feithrinfa, yr ysgol neu'r coleg cyn gynted â phosibl.



- Cadw nodyn o ddigwyddiadau neu bethau rydych chi'n sylwi am eich plentyn. Mae hyn yn gallu helpu pan fydd penderfyniadau ADY a CDU yn cael eu gwneud.



- Gweithio gyda'r feithrinfa, yr ysgol neu'r coleg. Rydych chi'n gallu eu helpu i ddeall anghenion eich plentyn.



- Mynd i gyfarfodydd ac adolygiadau.



- Gofyn cwestiynau a chadw'r wybodaeth ddiweddaraf am y gefnogaeth mae eich plentyn yn ei gael.



- Defnyddio'r cymorth a'r arweiniad sydd ar gael, fel **eiriolaeth**.

# Pobl sydd ar gael i gefnogi



Mae llawer o bobl yn cefnogi plant a phobl ifanc mewn addysg. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth drwy'r system ADY.



Os nad ydych chi'n siŵr pwy sy'n helpu'ch plentyn a sut, rydych chi'n gallu gofyn i'ch meithrinfa, ysgol, coleg neu gyngor lleol.



Mae yna bobl a'u gwaith nhw ydy gwneud yn siŵr, yn ôl y gyfraith, bod eich plentyn yn cael y gefnogaeth gywir. Efallai y byddwch chi'n cyfarfod rhai o'r bobl yma.



**Swyddog arweiniol anghenion dysgu ychwanegol y blynyddoedd cynnar - SAADBC**

Maen nhw’n gweithio gyda chi, plant ifanc, meithrinfeydd, ysgolion, gwasanaethau plant a gweithwyr iechyd proffesiynol.

Maen nhw’n eich helpu chi  i ddeall ADY ac yn gwneud yn siŵr bod plant ifanc yn cael y gefnogaeth gywir cyn gynted â phosibl.



**Y cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol - CADY**

Dyma’r person sy’n trefnu cymorth i blant a phobl ifanc ag ADY mewn ysgolion a cholegau. Maen nhw’n ceisio gwneud yn siŵr bod pethau’n gweithio’n dda.

Maen nhw’n gweithio gydag athrawon ac arbenigwyr eraill fel therapyddion iaith a lleferydd neu weithwyr iechyd proffesiynol i gynnig cefnogaeth a chyngor.

Maen nhw’n ceisio gwneud yn siŵr bod y plentyn a’r person ifanc yn gallu cymryd rhan lawn yn yr ysgol. Ond maen nhw hefyd yn meddwl am deimladau’r plentyn a’r person ifanc.

Maen nhw’n gweithio gyda chi, eich plentyn neu berson ifanc trwy bob cam o addysg. Gan gynnwys amseroedd o newid fel symud i grŵp blwyddyn newydd, ysgol, coleg neu waith.



**Swyddog arweiniol clinigol addysg dynodedig - SACAD**

Weithiau, mae plant a phobl ifanc ag ADY hefyd angen cymorth gan eu bwrdd iechyd lleol.

Mae gan bob bwrdd iechyd yng Nghymru SACAD.

Maen nhw'n cysylltu cymorth iechyd â chymorth addysg.

Er enghraifft, maen nhw'n gallu gwneud yn siŵr bod therapydd iaith a lleferydd eich plentyn yn cynllunio cymorth gydag ysgol eich plentyn.

Maen nhw'n rhannu gwybodaeth gyda chi, eich plentyn a'r cyngor lleol pan fydd angen help ychwanegol.

Maen nhw'n helpu i wneud yn siŵr bod eich plentyn yn cael y gefnogaeth gywir.

Maen nhw'n gwneud yn siŵr eich bod chi a'ch plentyn yn cael y wybodaeth rydych chi ei hangen.

Maen nhw'n helpu i wneud yn siŵr bod CDU yn iawn ac yn gweithio'n dda.

Maen nhw hefyd yn helpu Byrddau Iechyd pan fydd problemau neu gwynion am gymorth iechyd.



**Meithrinfeydd**

Mae meithrinfeydd yn helpu plant ifanc i ddysgu, chwarae a thyfu. Maen nhw'n gallu helpu i sylwi os ydy eich plentyn angen help ychwanegol yn gynnar.

Dydy rhai gwasanaethau i blant ifanc ddim yn cael eu rhedeg gan y cyngor lleol. Maen nhw'n dal i weithio gyda nhw i edrych a phenderfynu a oes gan blentyn ADY. Er enghraifft:

- Meithrinfeydd preifat
- Grwpiau Chwarae
- Gwarchodwyr plant.




**Ysgolion**

Mae ysgolion yn helpu plant a phobl ifanc i ddysgu a gwneud yn dda.

Mae athrawon yn gallu newid sut maen nhw'n addysgu i ateb anghenion pob plentyn a pherson ifanc.

Mae hyn yn meddwl bod ysgolion yn gallu rhoi'r gefnogaeth gywir i helpu pob plentyn a pherson ifanc i wneud cynnydd.

Weithiau mae ysgol yn gallu meddwl bod plentyn neu berson ifanc angen help ychwanegol.

Os ydyn nhw'n meddwl bod gan blentyn neu berson ifanc ADY efallai, fe fyddan nhw'n edrych ar hyn.

Os oes gan blentyn neu berson ifanc CDU yn barod, rhaid i'r ysgol ei gadw'n gyfredol.



**Colegau**

Mae colegau yn cefnogi pobl ifanc ag ADY ar ôl iddyn nhw adael yr ysgol uwchradd.

Maen nhw'n gweithio gyda'r ysgol a'r cyngor lleol i wneud symud o'r ysgol i'r coleg mor hawdd â phosibl.

Maen nhw'n helpu i ddarganfod pa gefnogaeth mae person ifanc ei angen.

Fe fyddan nhw hefyd yn ysgrifennu'r CDU ac yn gwneud yn siŵr bod cefnogaeth ar waith.



**Cynghorau lleol**

Mae cynghorau lleol yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod pob plentyn a pherson ifanc yn eu hardal yn cael addysg ac yn gallu gwneud eu gorau.

Maen nhw'n gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc ag ADY yn cael y gefnogaeth gywir.

## Sefyllfaoedd eraill



Mae rhai plant a phobl ifanc ag ADY yn gallu bod mewn sefyllfaoedd gwahanol, felly mae eu cefnogaeth yn gallu bod yn wahanol.



**Mae hyn yn gallu meddwl plant a phobl ifanc sydd:**

- Angen ysgol y tu allan i'w hardal cyngor lleol.
- Dysgu rhywle sydd ddim yn ysgol.
- Angen dysgu gartref.
- Yn yr ysbyty.
- Cael rhieni sy'n gweithio yn y lluoedd arfog.



Cysylltwch â'ch cyngor lleol i ddarganfod pa gymorth rydych chi'n gallu ei gael.

# Ffeithiau pwysig mae angen i chi eu gwybod



- Dydych chi ddim angen diagnosis meddygol i gael CDU.




- Dydy ADY ddim ar gyfer plant neu bobl ifanc ag anghenion cymhleth iawn yn unig.



- Dydy cael CDU ddim yn meddwl y bydd eich plentyn yn cael cymorth 1 i 1. Mae’n dibynnu ar anghenion eich plentyn.




- Rydych chi’n gallu gofyn i’r feithrinfa, yr ysgol, y coleg neu’r cyngor lleol benderfynu a oes gan eich plentyn ADY. Os ydych chi’n anghytuno â’u penderfyniad, rydych chi’n gallu ei gwestiynu ar unrhyw adeg.



- Mae cymorth ADY ar gyfer plant a phobl ifanc hyd at 25 oed.



- Os oes gan eich plentyn ADY dydy hynny ddim yn meddwl bod angen iddyn nhw symud i ysgol arbennig.



- Does dim angen i chi ddefnyddio cyfreithiwr sy'n codi tâl i gael cymorth cyfreithiol. Fe ddylai eich cyngor lleol ddweud wrthych chi am wasanaethau **eiriolaeth** am ddim.

# Ble i fynd am help

Rydych chi’n gallu cael gwybodaeth ddefnyddiol gan eich cyngor lleol: Cymorth gan eich cyngor lleol.

### Cyngor ADY

Mae tudalen anghenion dysgu ychwanegol Llywodraeth Cymru yn esbonio’r system ADY yng Nghymru.

llyw.cymru/anghenion-dysgu-ychwanegol

### SNAP Cymru

Elusen Gymreig sy’n cynnig cyngor a chefnogaeth am ddim ar ADY, gan gynnwys **eiriolaeth**.

www.snapcymru.org

### Comisiynydd Plant Cymru

Maen nhw’n helpu i swneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn cael eu trin yn deg ac yn cael llais.

complantcymru.org.uk

## Niwrowahaniaeth Cymru

Yn darparu gwybodaeth a chymorth cymunedol.

neurodivergencewales.org

## Tribiwnlys Addysg Cymru

Penderfynu am **apeliadau**, rhoi cyngor a chefnogaeth am sut maen nhw'n gweithio.

tribiwnlysaddysg.llyw.cymru

## Awtistiaeth Cymru – Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru

Maen nhw'n rhoi amrywiaeth o gefnogaeth a chyngor i bobl awtistig a'u teuluoedd yng Nghymru.

autism.org.uk/what-we-do/wales

## Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

Maen nhw'n rhoi cyngor am ddim i helpu teuluoedd i gael mynediad at wasanaethau gofal plant, addysg blynyddoedd cynnar, a chymorth ar draws Cymru.

llyw.cymru/dod-o-hyd-ich-gwasanaeth-gwybodaeth-i-deuluoedd-lleol

## Cymorth ar ôl 16 oed

### Gyrfa Cymru

Yn cynnig gwybodaeth a chyngor i bobl ifanc a theuluoedd.

gyrfacymru.llyw.cymru/fy-nyfodol/cefnogaeth-i-rieni-a-gofalwyr/deddfwriaeth-ac-asiantaethau-syn-cynnig-cymorth

### Colegau Cymru

Mae’n cefnogi colegau i ateb anghenion pobl ifanc ag ADY.

colegau.cymru/cy/page/additional-learning-needs-aln-in-the-post-16-sector

### Pathfinders ADY

Yn cefnogi pobl ifanc ag ADY a’u teuluoedd sy’n symud o’r ysgol i addysg bellach.

braenaruady.cymru/cy/blog/post/transition-from-school-to-post-16-education-and-training-for-young-people-who-have-aln

## Anabledd Dysgu Cymru

Mae Anabledd Dysgu Cymru yn elusen genedlaethol sy'n cynrychioli'r sector anabledd dysgu yng Nghymru.

ldw.org.uk

## NATSPEC

Yn cynrychioli colegau arbenigol. Maen nhw'n rhoi cyngor ar opsiynau i ddysgwyr ar ôl ysgol gydag ADY cymhleth.

natspec.org.uk/colleges/post-school-choices-in-wales

## Blynyddoedd Cynnar Cymru / Cwlwm

Mae Blynyddoedd Cynnar Cymru yn sefydliad sy'n cefnogi datblygiad ac addysg plant cyn-ysgol.

earlyyears.wales/cy/cwlwm

## Mudiad Meithrin

Maen nhw'n cefnogi datblygiad ac addysg yr iaith Gymraeg. Mae hyn ar gyfer plant o dan oedran ysgol.

meithrin.cymru

# Termau a geiriau defnyddiol

**Dyma restr o'r geiriau a'r termau sy'n cael eu defnyddio'n aml wrth siarad am ADY.**

**Deddf ALNET -** y gyfraith ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc ag ADY. Yr enw llawn yw Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

**Cod** - yn meddwl **Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021**. Mae hyn yn ganllawiau cyfreithiol ar gyfer ysgolion, colegau, cyngor a gwasanaethau iechyd. Mae'n dweud sut ddylen nhw gefnogi plant a phobl ifanc ag ADY.

**Plentyn** - person o dan 16 oed.

**Person ifanc** - Person rhwng 16 a 25 oed.

**ADY** – Anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn meddwl plant a phobl ifanc ag anawsterau dysgu neu anableddau sydd angen cymorth ychwanegol i ddysgu.

**DDdY** – Darpariaeth ddysgu ychwanegol. Dyma'r enw am y cymorth ychwanegol sydd yn cael ei roi i blant a phobl ifanc ag ADY.

**Lleoliad addysg** – Unrhyw le sydd yn rhoi addysg. Yn cynnwys meithrinfeydd, ysgolion, colegau, a lleoedd eraill.

**Meithrinfa a gynhelir** – Meithrinfa sy'n cael ei rhedeg gan y cyngor lleol. Mae hyn yn gallu bod yn ddosbarth meithrin mewn ysgol gynradd neu ysgol feithrin ar wahân.

**Meithrinfa heb ei chynnal** – Meithrinfa sydd ddim yn cael ei rhedeg gan y cyngor lleol. Mae hyn yn cynnwys meithrinfeydd preifat, cylchoedd chwarae, a gwarchodwyr plant.

**Oedran ysgol gorfodol** - Yng Nghymru, mae oedran ysgol gorfodol yn meddwl plant rhwng 5 ac 16 oed.

**Coleg** - Lle dysgu ar ôl 16 oed.

**Cynllun datblygu unigol** - dyma'r enw ar y cynllun fydd plant a phobl ifanc ag ADY yn ei gael.

**Eiriolwr** - person sy'n siarad drosoch chi.

**Apêl** - pan fyddwch chi'n gofyn am newid penderfyniad gan dribiwnlys.

**Ffrind achos** - rhywun sy'n gallu helpu plentyn neu berson ifanc i ddeall eu cynllun, ac yn gwneud penderfyniadau ar eu rhan, fel penderfynu apelio. Maen nhw'n adnabod y plentyn neu'r person ifanc yn barod a dydyn nhw ddim yn eiriolwr.

**Tribiwnlys** - grŵp arbennig o bobl sydd yn delio â dadl fel mae llys yn ei wneud.

ISBN 978-1-80633-671-5
WG51933